O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2018 Rhif 1163 (Cy. 236)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 3 (Cyfnewidfa Pen Caledog) i Gyffordd 8 (Cyfnewidfa Ael y Bowl), Ynys Môn) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2018

Gwnaed	*7 Tachwedd 2018*
Yn dod i rym	*12 Tachwedd 2018*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd yr A55, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 3 (Cyfnewidfa Pen Caledog) i Gyffordd 8 (Cyfnewidfa Ael y Bowl), Ynys Môn) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2018 a daw i rym ar 12 Tachwedd 2018.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 19:00 o'r gloch ar 12 Tachwedd 2018 ac sy'n dod i ben pan

(**1**) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw Cefnffordd yr A55 Llundain i Gaergybi.

Gwaharddiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Cymhwyso

6. Nid yw'r gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y mae arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 7 Tachwedd 2018

Richard Morgan
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

YR ATODLEN

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 250 o fetrau i'r dwyrain o Gyffordd 4 (Cyfnewidfa Dalar Hir) hyd at bwynt 250 o fetrau i'r gorllewin o Gyffordd 3 (Cyfnewidfa Pen Caledog), gan gynnwys y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 4 a'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 3.

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain a thua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 260 o fetrau i'r gorllewin o Gyffordd 6 (Cyfnewidfa Tyrpeg Nant) hyd

at bwynt 380 o fetrau i'r dwyrain o Gyffordd 7 (Cyfnewidfa Cefn Du), gan gynnwys y ffordd ymuno tua'r dwyrain a'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 6 a'r ffordd ymadael tua'r dwyrain a'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 7.

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 370 o fetrau i'r gorllewin o Gyffordd 7 (Cyfnewidfa Cefn Du) hyd at bwynt 200 metr i'r dwyrain o Gyffordd 8 (Cyfnewidfa Ael y Bowl), gan gynnwys y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 7 a'r ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 8.